

PEREDUR LYNCH a'r cyflwyniad newydd o feirdd y Tywysogion WELE ATGYFODI'R "HEN GYRPH"

MEWN LLYTHYR at William Morris, a ysgrifennwyd o Walton ym mis Mai 1754, yr oedd gan Goronwy Owen gyffes ddirifrol i'w gwneud. Yn ystod yr wythnosau blaenorol yr oedd rhyw lythni anifeilaidd wedi ei lwyr feddiannu, ac yr oedd yntau wedi bod yn ymddwyn 'fal mochyn wrth ei gafn'.

Na, nid wedi taro'r botel Gin yr oedd yr hen Oronwy, ac nid siarad yn llythrennol yr oedd ychwaith. Wedi bod yn gwledda ar waith Beirdd y Tywysogion, sef beirdd y ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg, yr oedd o, wedi bod 'yn gwancio ac yn yssu pob migwrn' o farddoniaeth Cynddelw, Gwalchmai a'u cymheiriaid, ac wedi gwirioni'n bot arnynt fel nad oedd ganddo bellach 'na blas nag archwaith ynghywyddau nac odlau D. ap Gwilym na neb o'i gyfoedion'.

Heddiw, prin y clywch chi neb yn siarad â'r fath afiaith am Feirdd y Tywysogion, neu'r 'hen gyrph' fel y cyfeiriai Goronwy atynt. Y tu hwnt i gyrisiau gradd ein colegau, anaml y try unrhyw un at eu gwaith. O raid y'u hastudir, ac ar y cyfan mae ymateb myfyrwyr i'w barddoniaeth yn dra chroes i frwdfrydedd Goronwy.

Eu hastrusrwydd diarhebol sy'n aros yn y cof, eu llinellau cywasgedig a'u geirfa enbyd o hynafol. Rhyddhad o hyd yw cael troi at waith beirdd diweddarach fel Dafydd ap Gwilym a'r cywyddwyr.

NID YW sefyllfa o'r fath yn syndod yn y byd, ac y mae yna un rheswm da dros hynny. Yn syml ddigon, nid oes neb wedi mynd ati i olygu gwaith Beirdd y Tywysogion yn fanwl a systematig.

Fe aeth Ifor Williams i'r afael â gwaith ein beirdd cynharaf, gwaith Y Cynfeirdd, ond hyd yn hyn nid aeth neb drwy waith Beirdd y Tywysogion â'i grib olygyddol fân ef.

O ydyw, y mae eu barddoniaeth mewn print, eu gwaith hwy a gewch chi yn y cyfrolau *Llawysgrif Hendregadredd* (T. H. Parry-Williams & John Morris-Jones, 1933) a *Poetry by Medieval Welsh Bards* (J. Gwenogvryn Evans, 1926). Mae yna gyfran o'u gwaith hefyd yn *The Poetry in the Red Book of Hergest* (J. Gwenogvryn Evans, 1911), ac mae rhan gyntaf *The Myvyrian Archaiology of Wales* (Owen Jones, &C., 1801) yn blastar o'u cerddi.

Ond trawsysgrifiadau ffyddlon allan o lawysgrifau a geir yn y cyfrolau hyn, miloedd o linellau

megis 'uruut ny olut olug roti. / aeruleit arwreit o eryri.' heb na geirfa na nodiadau esboniadol ar eu cyfyl.

Fe gafwyd rhai ymdrechion, mae'n ddigon gwir, i olygu eu barddoniaeth. Y gwaith amlycaf, bid siŵr, yw *Hen Gerddi Crefyddol* (Henry Lewis, 1931) lle cewch chi ganu crefyddol Beirdd y Tywysogion.

Wedyn, dyna i chi'r gyfrol fechan *Gemau'r Gogynfeirdd* (Arthur Hughes ac Ifor Williams, 1910) sy'n cynnwys pytiau bach blasus o'u barddoniaeth gyda rhai nodiadau.

Eu barddoniaeth hwy hefyd, wedi ei chodi o'r *Myvyrian*, ond gyda rhagymadrodd yn ymdrin â'u hiaith a'u geirfa, yw cynnwys *The Poetry of the Gogynfeirdd* (Edward Anwyl, 1909), ac y mae llond dwrn o'u cerddi wedi eu golygu a'u cyfieithu i'r Saesneg yng nghyfrrol arloesol Ieuan Fardd, *Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards* (1764).

OND at ei gilydd, y mae'r cyfrolau hyn yn llwyr annigonol gogyfer ag anghenion myfyrwyr a llyegwyr. Yn wir, gan Ffrancwr, Joseph Vendryes, y cafwyd rhai o'r golygiadau mwyaf boddhaol yn ystod y ganrif hon, ond yn Ffrangeg ac mewn cylchgronau anhygyrch megis *Etudes Celtiques* a *Revue Celtique* y ceir ei gynigion ef. Fe ddylid nodi hefyd fod J. Lloyd-Jones wedi gwneud gwaith arloesol ar eirfa Beirdd y Tywysogion (o a hyd *heilic*) yn *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* a ymddangosodd mewn wyth rhan rhwng 1931 a 1963. Y mae yna fyd o wahaniaeth, er hynny, rhwng geirfa a golygiadau cyflawn.

Na ofidied neb, er hynny! Y mae'r 'hen gyrph' ar fin atgyfodi! Ym mis Mai eleni fe gyhoeddir y gyntaf o saith cyfrol a fydd, am y tro cyntaf erioed, yn cynnwys golygiadau cyflawn o holl farddoniaeth Beirdd y Tywysogion.

Y cyfrolau hyn fydd ffrwyth prosiect cyntaf Canolfan Uwch-efrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, sefydliad ymchwil sydd wedi ei leoli yn Aberystwyth o dan adain Prifysgol Cymru.

Er 1985 bu tîm o bump, o dan arweiniad yr Athro R. Geraint Gruffydd, a chyda'r Athro J. E. Caerwyn Williams yn gweithredu fel Golygydd Ymgynghorol, yn dadberfeddu eu holl farddoniaeth. Gwaith tua 39 o feirdd a chyfanswm bras o 13,600 linell.

GWAITH bardd o'r enw Llywarch ap Llywelyn, neu a defnyddio'i lysenw, Prydydd y Moch, fydd yn cael ei gyhoeddi ym Mai. Yn eu tro bydd dwy gyfrol yn cynnwys gwaith Cynddelw Brydydd Mawr yn ymddangos, a chyfrol hefyd yn cynnwys gwaith teulu o feirdd o Fôn, teulu Meilyr Brydydd.

Bydd y tair cyfrol arall yn cynnwys gwaith y mân feirdd, hynny yw, y beirdd na chadwyd toreth mawr o'u cerddi. Ymhlith y rhain ceir beirdd ag enwau hynod urddasol megis Sisyll Bryffwrch, Daniel ap Llosgwrn Mew a Llygad Gŵr!

Bydd y cyfrolau hyn i gyd yn unffurf eu diwyg ac yn sylweddol eu maint, rhwng tua phedwar a chwe chan tudalen. Gobeithir hefyd y byddant i gyd wedi gweld golau dydd erbyn 1994.

BETH FYDD ffurf y golygiadau hyn? Yn naturiol ddigon, bydd rhagymadroddion a nodiadau testunol a geirfau cyflawn i waith pob un bardd. Bydd pob un cerdd yn ymddangos yn y dull a ganlyn. Yn gyntaf rhoir fersiwn wedi ei atalnodi yn orgraff y llawysgrif. A gofiwch chi'r

linellau astrus yna uchod? Wel, dyma'r rheiny wedi eu hatalnodi: *Euruut ny olut, olud roti, Aeruleit arwreit o Eryri.*

Hwyrach nad yw hynna yn cynnig llawer o oleuni, ond dichon y bydd yr ail gam, sef rhoi fersiwn o'r gerdd gyda'r orgraff wedi ei diweddarau:

Eurfydd ni oludd, olud roddi, Aerflaidd arwraidd o Eryri.


Yna, yn drydydd, cynigir diweddariad mewn Cymraeg modern:

Ni cheidw'i ysbail, y rhanwyr cyfoeth, Y blaidd brwydr gwrol o Eryri.

Fe wneir hyn, cofiwch, a gwaith pob un bardd, â 13,600 o linellau!

Darllen gwaith Beirdd y Tywysogion mewn llawysgrif, a chyda geiriadur John Davies Mallwyd wrth ei benelin, a wnâi Goronwy Owen ym Mai 1754; ymdrechu i'w dehongli o'i ben a'i bastwn ei hun, a mwynhau'r profiad i'r eithaf.

O Fai 1991 ymlaen bydd modd eu darllen heb eiriadur; bydd eraill wedi chwysu chwartiau uwch ystyron eu llinellau ac wedi eu dehongli. Ond a atgyfodir glythni Goronwy? Chwi foch llengar Y *Casglwr* closiwch at y cafn!


**Gwasg
Gwynedd**
Cibyn Caernarfon
Gwynedd
Ffôn: Caernarfon (0286) 4486

**ARGRAFFWYR
A CHYHOEDDWYR**